**Cofnodion Cyfarfod Fforwm Cyllid Ysgolion Ceredigion**
**a gynhaliwyd yn**
**Ystafell Aeron Fach, Canolfan Felin-fach ar ddydd Llun, 19 Mai, 2014.**

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Hag Harris (Cadeirydd).

**Aelodau nad ydynt o ysgolion**: Mr Eifion Evans, Mr Gwyn Jones.

**Aelodau o Ysgolion**:
Cynrychiolwyr Ysgolion Cynradd: Lodwick Lloyd a Peter Wellington (Llywodraethwyr).

Cynrychiolwyr Ysgolion Uwchradd: Derrick Jones a Chris Evans (Llywodraethwyr).

**Swyddogion yn bresennol**: Chris Macey (DECS – Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol), Kay Davies (Gwasanaethau Democrataidd).

7.00 pm – 8.40 pm

1 **Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd y Cynghorwyr Ellen ap Gwynn a Paul Hinge, Anna Williams, Stephen Cooper, Meinir Lewis ac Alwyn Ward am iddynt fethu â bod yn bresennol yn y cyfarfod.

2 **Datgelu Buddiant Personol**
Ni ddatgelwyd buddiannau personol

3 **Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
**CYTUNWYD** y dylid cadarnhau fel cofnod cywir cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2014.

4 **Materion sy'n codi o'r Cofnodion (13.01.14)**
Ni chodwyd unrhyw fater.

5 **Fformiwla Ariannu 2014 – 15**
Adroddwyd gan y Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau fod y fformiwla eleni wedi ei greu yn seiliedig ar y Gyfradd Disgybl Athro gan hefyd roi cyfrif am y toriad o £2m yn yr arian ar gyfer y gwasanaeth sy'n adlewyrchu'r her a wynebir gan y Sir eleni. Rhagwelir y bydd angen i'r Sir gael gafael ar £10m pellach y flwyddyn nesaf a bydd hyn yn ei dro yn creu her mawr iawn i ysgolion.

Mae Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol, Chris Macey, a'r tîm wedi gweithio'n agos iawn gydag ysgolion eleni ac y mae pob un ond dwy ysgol yn parhau mewn credyd eleni. Aeth Chris Macey â'r cyfarfod drwy'r adroddiad. Nodwyd y teimlir fod y fformiwla newydd yn decach system er ei fod yn parhau'n her ar gyfer y mwyafrif o ysgolion yn enwedig y rheiny nad oes ganddynt gronfeydd digonol

wrth gefn. Bydd yn ofynnol i rai Ysgolion edrych ar ailstrwythuro sylweddol a thoriadau staff er mwyn cyflawni'r her o weithredu o fewn y gyllideb. Mae gwaith monitro'n parhau o fewn yr elfennau perthnasol.

**CYTUNWYD** nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

6 **Cronfeydd Wrth Gefn Ysgolion– Mawrth 2014**

Nodwyd fod cronfeydd wrth gefn ysgolion cynradd wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn, fodd bynnag roedd cronfeydd wrth gefn ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed wedi gostwng. Yn gyffredinol roedd gostyngiad yn y cronfeydd wrth gefn net. Nodwyd fod gan Ysgolion Cynradd reolaeth ariannol dda ac mae'n annhebygol y bydd y diffyg yn nyled yr ysgolion uwchradd yn cynyddu erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2014-15. Cymerwyd camau i weithio'n agos gydag ysgolion sydd eisoes wedi defnyddio eu cronfeydd wrth gefn er mwyn sicrhau nad ydynt yn nodi diffyg yn eu cyllideb.

**CYTUNWYD** nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

7 **Perfformiad Ariannol Gwasanaethau Dysgu 2013-14**

Bu i Chris Macey gyflwyno'r adroddiad drafft. Nodwyd ganddo fod gostyngiad yn incwm Anghenion Dysgu Ychwanegol am fod llai o ddisgyblion y tu allan i'r Sir. Gwneir gwaith ar hyn o bryd ar ailstrwythuro swyddi un i un gan edrych ar ddulliau amgen o gynorthwyo disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

**CYTUNWYD** nodi'r adroddiad.

8 **Grant Effeithiolrwydd Ysgolion**

Bu i Gyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau hysbysu'r cyfarfod y penderfynir ar y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion yn rhanbarthol. Targedir ysgolion sy'n tanberfformio a rhoddir arian i ysgolion sy'n perfformio'n dda o fewn yr un clwstwr er mwyn iddynt fedru rheoli'r arian a dylanwadu ar ysgolion sy'n tanberfformio. Caiff partneriaethau hefyd eu creu rhwng ysgolion o siroedd gwahanol er mwyn codi safonau. Bydd ffigyrau terfynol ar gael yn y cyfarfod nesaf.

Nodwyd gan Gyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau taw'r Bwrdd Strategol, y mae ef yn Gadeirydd ohono , sy'n penderfynu ac yn argymell ar y grantiau.

**CYTUNWYD** nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

9 **Grant Addysg Ôl 16 oed 2014-15**

Hysbyswyd y Pwyllgor gan Gyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau fod pob awdurdod yng Nghymru wedi derbyn llai o grant Addysg Ôl 16 oherwydd y fformiwla ariannu newydd a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r ffaith y defnyddiwyd ffigyrau rhagamcanu poblogaeth 2008 yn hytrach na ffigyrau

Cyfrifiad 2011 wedi gweithio yn erbyn Ceredigion. Mae'n fwriad gan Lywodraeth Cymru adolygu'r fformiwla ar gyfer 2015-16

**CYTUNWYD**;

(i) Nodi'r wybodaeth a ddarparwyd

(ii) Y dylai Llywodraethwyr Ysgol ysgrifennu at y Gweinidog drwy Lywodraethwyr Cymru, i wrthwynebu'r system fformiwla gyfredol.

10 **Unrhyw fater arall**

Caiff dyddiad y cyfarfod nesaf ei ddosbarthu i aelodau'n fuan.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Fforwm a gynhaliwyd ar xxxxxxxx, 2014.

**Cadeirydd**